Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru

Trawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Darparu Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru

Cynulleidfa

Ysgolion a Gynhelir; Sefydliadau Addysg Bellach; Sefydliadau Addysg Uwch; Awdurdodau Addysg Lleol; fforwm; Estyn; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; Undebau; Cymdeithasau Proffesiynol; Cymdeithasau Llywodraeth Leol Cymru; Asiantaeth Sicrhau Ansawdd; Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; Bwrdd yr Iaith Gymraeg; Fforymau Cymunedau Ffydd; Cynghorau Sgiliau Sector; Darparwyr Hyfforddiant Dysgu Seiliedig ar Waith; Cynrychiolwyr Rhwydweithiau 14-19; Canolfannau Cymraeg i Oedolion; Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru; Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion; Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

Trosolwg

Mae sicrhau gweithlu sy'n meddu ar sgiliau digonol i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth lefel uchel yn y dyfodol yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae tystiolaeth yn awgrymu, er mwyn helpu i gyflawni hyn, y dylai Llywodraeth y Cynulliad geisio ffyrdd o integreiddio gwaith ysgolion, Sefydliadau Addysg Bellach, Sefydliadau Addysg Uwch a darparwyr ôl-16 eraill yn llawnach i drawsnewid y ffyrdd y cyflwynir darpariaeth addysg a hyfforddiant.

Camau i'w cymryd

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i ddarparwyr dysgu gymryd y camau angenrheidiol i ffurfio Partneriaethau Dysgu daearyddol a sectoraidd erbyn dechrau mis Tachwedd 2008, ac i gynigion amlinellol ar gyfer newid gael eu cyflwyno i APADGOS, fel Rhaglen Amlinellol Strategol, erbyn 15 Ionawr 2009 (Atodiad B). Dylid llunio ymatebion ar y ffurflen amgaeedig a'u dychwelyd yn electronig i Transformation3@wales.gsi.gov.uk neu fel copi caled i'r cyfeiriad isod.

Rhagor o wybodaeth

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cyhoeddiad hwn gan:
Jane Woodley
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Tŷ'r Afon, Heol Bedwas,
Bedwas, Caerffili CF83 8WT
Ffôn: 01443 663717 Ffacs: 01443 663653
E-bost: Transformation3@wales.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gallwch gael copïau ychwanegol gan:
Joanne Meade (gweler y cyfeiriad uchod)
Ffôn: 01443 663846 Ffacs: 01443 663653
E-bost: Transformation3@wales.gsi.gov.uk
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar y rhyngrwyd yn:
http://newydd.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/publications/?lang=cy

Dogfennau cysylltiedig

Cymru'n Un
Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith
Addewid a Chyflawniad
Strategaeth Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru
Llwybrau Dysgu 14-19
Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008 (Arfaethedig)

ISBN 978 0 7504 4787 4
© Hawlfraint y Goron Medi 2008
CMK-22-04-045 (097)
D1840809

75% wedi'i ailgylchu recycled

RHAGAIR Y GWEINIDOG

Rydym yn byw mewn byd sy'n mynnu gweithlu medrus ac yn cydnabod bod meithrin sgiliau a chael swydd yn ddwy o'r ffyrdd mwyaf pwerus y gall unigolion o bob cefndir drawsnewid eu cyfleoedd bywyd. Golyga hyn fod yn rhaid i'n system addysg a hyfforddiant ddarparu ar gyfer anghenion dysgwyr a gofynion cyflogwyr er mwyn i ni sicrhau bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen arnynt a'u bod yn barod ar gyfer cyflogaeth. At hynny mae'n rhaid iddi gynnwys pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o'r ysgol a'r bobl ifanc a'r oedolion hynny nad ydynt wedi cymryd rhan mewn dysgu ers peth amser.

Wrth fynd i'r afael â'r angen i greu cenedl fedrus rydym yn croesawu'r cynnydd a wnaed eisoes ers datganoli. Mae addysg a hyfforddiant yn gwella. Mae Estyn yn nodi gwelliannau yn ansawdd darpariaeth dysgu ym mhob sector. Sicrhawyd lefelau cyflogaeth uwch nag mewn llawer o wledydd yn Ewrop. Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc yn cynyddu o ganlyniad i raglen Llwybrau Dysgu 14-19. Mae enghreifftiau o ddatblygiadau cydweithio ardderchog rhwng darparwyr dysgu sy'n dod â manteision i lawer o bobl ifanc ac oedolion.

Fodd bynnag, mae gan Gymru gyfradd cyflogaeth is a chyfran uwch o oedolion heb gymwysterau, na chyfartaledd y DU o hyd. Nid yw 10% y cant o'n pobl ifanc mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae diffygion o ran sgiliau sylfaenol yn dal i fod yn achos pryder mawr. Mae gormod o ysgolion, colegau a phrifysgolion yn cynllunio ac yn cyflwyno dysgu ar wahân, sy'n arwain at ddyblygu a bylchau yn y ddarpariaeth.
O ganlyniad, mae mynediad at addysg a hyfforddiant o safon yn anghyson a phrin iawn yw'r darparwyr dysgu sy'n ystyried gofynion byd busnes a diwydiant a'r ystod amrywiol o anghenion sydd gan ddysgwyr.

Yn ein rhaglen *Cymru'n Un* a'n strategaeth *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, rydym yn nodi sut y bwriadwn ymateb i'r heriau hyn.

Rydym yn cydnabod yn *Cymru'n Un* bod addysg yn grymuso pobl a bod diwylliant o ddysgu yn helpu i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol. Rydym hefyd yn cydnabod pa mor bwysig yw economi gryf a mentrus a'r manteision sy'n deillio o greu a chadw swyddi. Dyma pam rydym yn datblygu nifer o fentrau unedig i drawsnewid y modd y cyflwynir dysgu. Mae'r Mesur Dysgu a Sgiliau yn elfen hanfodol o'n rhaglen drawsnewid. Nod y rhaglen hon yw ategu hawliau pobl ifanc 14-19 oed drwy annog darparwyr i gydweithio a rhwydweithio.

Mae *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, ein strategaeth i ddatblygu sgiliau a chyflogaeth i bobl ifanc ac oedolion, yn nodi'r camau gweithredu y bwriadwn eu cymryd i ysgogi twf economaidd cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru. Mae sicrhau y caiff yr holl ddarpariaeth dysgu, o 16 oed, ei hail-lunio, ei hailgyflunio a'i thrawsnewid yn llwyr er mwyn ei chysoni yn un o flaenoriaethau allweddol y strategaeth. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y bydd rhai awdurdodau lleol am gydgysylltu'r gwaith o drawsnewid darpariaeth dysgu ôl-16 â'r gwaith o weithredu hawliau pobl ifanc 14-19 oed a chynlluniau i ad-drefnu'r modd y cyflwynir dysgu ôl-11 mewn ysgolion uwchradd. Rydym o blaid bwrw ati i gyflawni'r ddau nod uchod ar y cyd pan fydd yn codi cyrhaeddiad disgyblion ac yn sicrhau bod gan ein system addysg a hyfforddiant y strwythur a'r gallu priodol i ddarparu sgiliau'r dyfodol.

Er mwyn sicrhau Cymru gyfiawn, lle y mae gan bawb gyfle i lwyddo, mae'n rhaid i ni sicrhau gwelliannau. Felly, mae'n bleser gennyf gyflwyno ein polisi a'n cynigion ar gyfer trawsnewid dysgu, sy'n nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd i sicrhau y cyflwynir dysgu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ymatebol. Rydym yn cydnabod yr heriau sydd ymhlyg yn y gwaith o weithredu'r polisi hwn. Mae gennym ddisgwyliadau mawr ond gellir eu cyflawni, maent yn radical ond yn realistig. Mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio i drawsnewid addysg a hyfforddiant ar frys.

Mae llawer ohonoch eisoes yn ymgymryd â'r agenda drawsnewid hon. Rydym yn gweithio'n agos gyda rhai grwpiau o ddarparwyr dysgu, sydd wedi hen gychwyn ar eu gwaith cynllunio trawsnewid ac rydym yn hyderus y gwelwn newidiadau sylweddol yn cael eu gweithredu erbyn 2010. Rwyf yn cymeradwyo'r datblygiadau hyn ac yn gwahodd pob arweinydd a darparwr dysgu strategol i ymchwilio i'r ffyrdd mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r agenda sgiliau yn y dyfodol agos iawn.

John Griffiths AC - Dirprwy Weinidog dros Sgiliau

Trosolwg

Mae ein strategaeth sgiliau newydd, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*, a'r ddeddfwriaeth Dysgu a Sgiliau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n ymdrin â hawl pob myfyriwr 14-19 oed i gael amrywiaeth eang o opsiynau cwricwlwm, yn gofyn am ffyrdd newydd o weithio ar draws y rhwydwaith o ddarparwyr yng Nghymru.

Mae'r papur hwn yn herio pawb sy'n ymwneud â rheoli a darparu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru i gydweithio i drawsnewid y rhwydwaith o ddarparwyr er mwyn i ni:

- ymestyn yr opsiynau sydd ar gael i fyfyrwyr 14-19 mewn ffordd sy'n paratoi pobl ifanc ar gyfer yr ystod lawn o lwybrau sy'n agored iddynt ac sy'n parchu gwahanol arddulliau dysgu'r myfyrwyr hynny;
- lleihau dyblygu darpariaeth yn ddiangen drwy sicrhau mwy o gydweithio wrth gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm; a
- ceisio sicrhau rhagoriaeth ar draws y rhwydweithiau o ddarparwyr, gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed gan ddarparwyr unigol wrth godi ansawdd gweithgarwch rheoli sefydliadol a phrofiad dysgu myfyrwyr.

Mae trawsnewidiad o'r fath yn gofyn am newid sylfaenol yn y dull gweithredu ledled Cymru ac fe'i cynorthwyir gan ddatblygiadau polisi newydd mewn meysydd megis ariannu darpariaeth ôl-16, fel y nodir yn *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*. Rydym am sicrhau bod darparwyr yn cynllunio eu darpariaeth mewn cydweithrediad i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau - a sicrhau y defnyddir cymaint â phosibl o'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu a chynorthwyo dysgwyr.

Mae'r papur hwn yn cynnig fframwaith cenedlaethol i ategu'r gwaith o drawsnewid y rhwydwaith darparwyr yng Nghymru ac yn gwahodd cynigion sy'n ymateb i'r angen i newid. Lluniwyd y fframwaith trawsnewid cenedlaethol yn fwriadol iawn i hyrwyddo atebion lleol i anghenion lleol, yn hytrach na defnyddio un model sy'n addas i bawb leded Cymru. Mae'r fframwaith hefyd yn cydnabod bod trafodaethau rhwng darparwyr ynghylch ffyrdd newydd o gydweithio eisoes yn cael eu cynnal ledled Cymru – rydym yn croesawu'n frwd y mentrau hyn.

Yn achos ysgolion uwchradd, rydym yn cydnabod bod rhai awdurdodau wedi dechrau gweithredu cynigion ar gyfer ailgyflunio darpariaeth uwchradd neu'n ystyried cynigion o'r fath, er enghraifft i ymateb i'r heriau sy'n gysylltiedig â lleoedd gwag. Byddem yn awyddus i gynnal trafodaethau â'r awdurdodau hynny i sicrhau y gallwn gydweithio i sicrhau bod y fath gynigion hefyd wedi'u cysylltu â'r nod o drawsnewid darpariaeth ôl-ysgol yn yr ardal.

Rydym wedi pennu amserlenni uchelgeisiol yn y papur hwn, yn rhannol am fod nifer o ardaloedd yng Nghymru eu hunain wedi bod yn uchelgeisiol wrth weld yr angen i newid, ac yn rhannol am na fydd y sefyllfa sydd ohoni yn cyflawni ein nod cyffredin i greu Cymru addysgedig a medrus sydd â lefelau cyflogaeth uchel. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gydag awdurdodau lleol a phob darparwr ôl-16 i ddatblygu rhwydwaith o ddarparwyr a fydd yn cyflawni'r nod hwnnw.

Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru:

Cynnwys

Tudalen

Cyflwyniad a Chefndir

Cyflwyniad: Datganiad o Fwriad 1
Cefndir: Ffactorau Sylfaenol/Y Ddadl dros Newid 4

Y Cyd-destun

Y Polisi Trawsnewid 9
Modelau o Bartneriaethau Dysgu 13
Cynllunio Trawsnewidiol 16

Y Camau Nesaf 19

Atodiadau

Atodiad A

Gwybodaeth Ystadegol ac Ariannol 21

Atodiad B

Rhaglen Amlinellol Strategol 25

Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cyflwyniad: Datganiad o Fwriad

1. Mae *Cymru'n Un*[1] yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau dysgu i fyw, creu cymdeithas deg a chyfiawn a sicrhau amgylchedd cynaliadwy. At hynny mae'n disgrifio ein penderfyniad i ddatblygu system addysg a hyfforddiant sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu, sy'n ymateb i anghenion pob dysgwr a chyflogwr, ac sy'n mynd i'r afael â thlodi ac anfantais.

2. O ganlyniad, mae gwella deilliannau dysgwyr, lleihau anweithgarwch economaidd a gwella sgiliau'r rhai mewn cyflogaeth yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn fyr, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi addo trawsnewid y modd y darperir ac y cyflwynir dysgu. Y nod yw sicrhau gweithlu sy'n meddu ar sgiliau digonol i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth lefel uchel yn y dyfodol.

3. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y cynnydd a wnaed gan lawer o'n darparwyr dysgu unigol, a grwpiau o ddarparwyr yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys darparwyr yn rhwydweithio ac yn gweithio mewn partneriaeth i wella'r dewis i bobl ifanc 14-19 oed; gwella cyrhaeddiad a dilyniant; a gwella ansawdd y ddarpariaeth, fel y cyfeiriwyd atynt gan Estyn. Datblygwyd atebion arloesol i heriau lleol yn gysylltiedig â chyflwyno dysgu ac rydym yn nodi'r cysylltiad cryf rhwng cyflwyno dysgu yn llwyddiannus a deilliannau llwyddiannus dysgwyr, a chydweithio parhaol rhwng darparwyr.

4. Fodd bynnag, rydym yn llawn ymwybodol nad yw gwelliannau yn gyson ledled Cymru ar bob lefel darparu ac rydym yn glir nad yw'r rhwydwaith yn newid yn ddigon cyflym i wneud y gwelliannau sydd eu hangen i faes dysgu. Deuwn i'r casgliad y gellir cyflawni mwy fyth os caiff modelau o arfer da darparwyr eu rhannu, eu hefelychu a'u haddasu ar gyfer amgylchiadau lleol; ac mae ymrwymiad cyffredin i ddileu unrhyw achosion o ddyblygu darpariaeth ac aneffeithlonrwydd.

5. Felly, un o negeseuon sylfaenol ein strategaeth a'n cynllun gweithredu newydd *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*[2] (StWfW) yw bod trefniadaeth bresennol darpariaeth dysgu yn annhebygol o ategu'r broses trawsnewid dysgu sydd ei hangen ar Gymru, ac ategir y dadansoddiad hwn gan yr adolygiad annibynnol o Addysg Bellach yng Nghymru[3].

6. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i ganolbwyntio'n gryf ar sicrhau cydweithio mwy effeithiol rhwng darparwyr. Oherwydd hyn datblygwyd y Mesur Dysgu a Sgiliau arfaethedig, i ategu hawliau pobl ifanc 14-19 oed. Bydd hyn yn sicrhau bod pob dysgwr yn y grŵp targed pwysig hwn yn gallu manteisio ar amrywiaeth eang o raglenni dysgu o safon, nod na ellir ei gyflawni gan unrhyw

[1] Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru, 2007.
[2] Sgiliau Sy'n Gweithio i Gymru: Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, 2008 - ar gael ar wefan: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/skillsthatworkforwales/?lang=en
[3] Addewid a Chyflawniad: Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Diben Addysg Bellach yng Nghymru yng nghyd-destun y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith. Rhagfyr 2007, Adolygiad Webb.

ddarparwr addysg neu hyfforddiant unigol, a chael y cymorth sydd ei angen arnynt i sicrhau y cânt bob cyfle i gyflawni deilliannau llwyddiannus.

7. Rydym yn credu na ddylid cyfyngu'r ffocws ar gydweithio a rhwydweithio gan ddarparwyr i'r grwpiau targed 14-19. Rydym yn bwriadu gweithio gyda darparwyr a rhanddeiliaid i fynd i'r afael mewn dull cynhwysfawr â strwythur a swyddogaeth darparwyr a'u potensial ar gyfer rhwydweithio er mwyn helpu i gynyddu effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ymatebolrwydd addysg a hyfforddiant ar gyfer pob dysgwr dros 16 oed; a rhoi cefnogaeth lawn i awdurdodau lleol sydd am fwrw ymlaen â'r gwaith cysylltiedig o ad-drefnu'r modd y cyflwynir dysgu ôl-11[4]. Rydym yn disgwyl i hyn arwain at ragor o rwydweithio traws-sector rhwng pob sector darparu ac ar eu traws; mwy o brifysgolion a cholegau yn uno; a mwy o drefniadau trydyddol ôl-16.

8. Nid ydym yn argyhoeddedig y gall unrhyw fodel cydweithio ac ailgyflunio penodol gyflawni'r nod o drawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-16. O ganlyniad, nid yw'r cynnig ar gyfer consortia comisiynu a gyflwynwyd yn Adolygiad Webb yn fodel rydym am ei bennu'n gyffredinol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol ei bod yn bosibl mai'r model hwn fydd yr un mwyaf priodol o dan amgylchiadau penodol, yn enwedig pan fydd darparwyr arbenigol yn gweithio dros ardal ddaearyddol eang. Cofnododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth bryderon tebyg ymhlith rhanddeiliaid ynghylch pa mor ddichonol oedd y model hwn, gan dderbyn nad oedd y status quo yn dderbyniol mwyach i gyflawni'r agenda sgiliau fodern.

9. Er hwylustod rydym yn galw **Partneriaethau Dysgu** ar y rhwydweithiau darparwyr/modelau cydweithio ehangach y mae'r Llywodraeth yn rhagweld y byddant yn deillio o'r polisi hwn. Rydym yn disgwyl, fan leiaf, y bydd y Partneriaethau Dysgu hyn wedi'u sefydlu am yr amser a gymer i ddatblygu a gweithredu gweithgarwch trawsnewid penodol. At hynny, yn achos rhai modelau cydweithio, gall rhanddeiliaid fod o'r farn mai'r Bartneriaeth Ddysgu yw'r corff rheoli mwyaf priodol, ac os felly bydd i'r Bartneriaeth Ddysgu rôl allweddol o ran cyflwyno dysgu.

10. Fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, galwyd ar Lywodraeth y Cynulliad i roi arweiniad clir o ran cyfeiriad a chyflymder newid. Felly, gyda hyn mewn golwg, rydym wedi penderfynu peidio â threialu rhywfaint o weithgarwch trawsnewid, ac yn lle hynny rydym yn mynd i gyflwyno'r rhaglen lawn ar unwaith.

11. Wrth ddatblygu ein polisi trawsnewid, rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd, i ganolbwyntio ar gysoni'r modd y cyflwynir darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, gyda gwell cysylltiadau â darpariaeth y sector gwirfoddol; a lle y bo'n briodol gwneud cynlluniau ar gyfer ad-drefnu ysgolion uwchradd a darpariaeth dosbarth chwech mewn ysgolion. Dylid cyflwyno cynigion statudol yn seiliedig ar wella safonau; cynyddu cyfranogiad; gwella'r amrywiaeth o gyfleoedd i ddysgwyr; ystyried lleoedd gwag; y galw cynyddol am ddarpariaeth

[4] Ar y sail hon mae'r ddogfen yn cyfeirio o bryd i'w gilydd at newidiadau y gellid eu cynnig os bydd rhai awdurdodau am gysoni'r gwaith o ad-drefnu dysgu cyn ac ar ôl 16 oed mewn ymateb i'r polisi trawsnewid.

cyfrwng Cymraeg; lleihau nifer y dosbarthiadau chwech bach; a sicrhau y buddsoddir cymaint â phosibl o'r arian sydd ar gael yn y stoc adeiladau ysgolion.

12. Dylai awdurdodau lleol hefyd ganolbwyntio ar fodloni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau i roi dewis llawn o raglenni a llwybrau academaidd a galwedigaethol a rhaglenni a llwybrau yn seiliedig ar sgiliau. Wrth wneud hynny dylai awdurdodau lleol weithio gyda'r darparwyr addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith perthnasol i sicrhau y cyflwynir rhaglenni dysgu 14-19 yn gydlynol.

13. Byddwn yn mynnu bod sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda Rhwydweithiau 14-19 i fodloni'r gofynion i ehangu cyfleoedd lleol i bawb, a gweithio gyda'i gilydd i greu ac ehangu llwybrau dilyniant y mae eu mawr angen. Dylent gydweithio i sefydlu rhwydweithiau rhanbarthol o arbenigedd mewn sgiliau ôl-16 ac ôl-19, yn seiliedig ar flaenoriaethau sector; sefydlu canolfannau rhagoriaeth mewn sgiliau lle y bo'n briodol; lansio graddau sylfaen priodol; ac uno neu ffurfio ffederasiynau ffurfiol[5] pan fydd hyn yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i ddysgwyr.

14. At hynny, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn canolbwyntio ar ansawdd darparwyr dysgu seiliedig ar waith a nifer y fath ddarparwyr. Yn benodol, rydym am weld prentisiaethau a rhaglenni yn cael eu datblygu i helpu pobl i gael gwaith, i sicrhau bod y llwybrau dysgu gwerthfawr hyn yn chwarae rhan lawn yn y gwaith o greu darpariaeth dysgu sy'n addas i'r diben ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.

15. Rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch perthnasol, gan weithio gyda swyddogion o'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS), arwain y gwaith o gyflwyno'n sydyn y trawsnewid yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Pan fydd cynlluniau yn cynnwys ysgolion a dosbarthiadau chewch ysgolion yr awdurdod lleol fydd y corff mwyaf priodol i arwain y gwaith hwn. O dan amgylchiadau eraill bydd coleg neu brifysgol benodol mewn gwell sefyllfa i gyfarwyddo a rheoli gweithgarwch trawsnewid.

16. Ac eithrio darparwyr dysgu seiliedig ar waith, gall hyn olygu ymrwymiad hirdymor i reoli darpariaeth ar y cyd neu bydd angen rhoi trefniadau cydlywodraethu newydd ar waith[6]. Dim ond drwy ad-drefnu/ailgyflunio'r ddarpariaeth ddysgu y bydd rhai awdurdodau lleol yn sicrhau'r gwelliannau disgwyliedig o ran darparu cyfleoedd dysgu. Gallai hyn arwain at awdurdodau lleol yn cyflwyno cynigion statudol i ad-drefnu ysgolion uwchradd, os bydd ad-drefnu dysgu ôl-11 yn rhan o'r cynllun trawsnewid lleol; a chynigion statudol i gau dosbarthiadau chwech ysgolion, gan sefydlu trefniadau trydyddol ôl-16 gyda cholegau lleol. Efallai y bydd colegau addysg bellach am ystyried mesurau cydweithio mwy ffurfiol, gan gynnwys uno, neu

[5] Yn y cyd-destun hwn defnyddir y gair "ffederasiwn" i gyfeirio at gydweithio neu bartneriaethau ffurfiol sy'n sicrhau manteision i ddysgwyr yn debyg i'r rhai sy'n deillio o uno sefydliadau unigol heb i ddarparwyr integreiddio'n ffurfiol.

[6] Gellir cyflawni hyn drwy:

- Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008, drwy ffurfio cydbwyllgorau.
- Rheoliadau Cydweithio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008, drwy ffurfio cydbwyllgorau. Disgwylir i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ym mis Rhagfyr 2008.

ffederasiynau ffurfiol, â sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch eraill. Efallai y bydd sefydliadau addysg uwch am wella eu trefniadau partneriaeth cyfredol hefyd.

17. Wrth sefydlu patrwm wedi'i drawsnewid o ddarpariaeth dysgu yng Nghymru mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i weithio gyda rhanddeiliaid allanol mewn ffordd sy'n cydbwyso strategaeth genedlaethol ac anghenion a phrofiadau lleol a gafwyd o arfer gorau.

18. Yn benodol rydym yn disgwyl i unrhyw weithgarwch trawsnewid dysgu wella cyfleoedd i bobl a grwpiau sy'n llawer mwy tebygol o brofi gwahaniaethu ac y mae llai o gyfleoedd ar gael iddynt. Dylai gweithgarwch trawsnewid dysgu hefyd ddangos defnydd effeithiol o Dechnoleg Gwybodaeth Dysgu a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a'r rôl y mae'r rhain yn ei chwarae i ategu gweithgarwch trawsnewid.

19. Yn olaf rydym yn cydnabod bod nifer o awdurdodau lleol, colegau a phrifysgolion eisoes wedi hen gychwyn ar eu cynlluniau i drawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant, i ddiwallu anghenion dysgwyr, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r rhanddeiliaid hyn i weithredu'r fath gynlluniau yn amserol.

Cefndir: Ffactorau Sylfaenol

20. Ar hyd o bryd darperir addysg a hyfforddiant uwchradd a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru gan 222 o ysgolion uwchradd a gynhelir (heb gynnwys ysgolion arbennig), y mae gan 168 ohonynt ddosbarthiadau chwech. O'r rhain, mae 55 o ysgolion yn cyflwyno darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae gan 48 o'r ysgolion hyn ddosbarthiadau chwech. Gweinyddir y ddarpariaeth hon drwy 22 o awdurdodau lleol. At hynny cyflwynir darpariaeth gan 25 o sefydliadau addysg bellach. Mae'r ddaearyddiaeth, y ddemograffeg a'r tirluniau economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyflwyno darpariaeth yn amrywio cryn dipyn ledled Cymru. At hynny, ar hyn o bryd rydym yn contractio â 91 o ddarparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith; a dyrennir arian i bob awdurdod lleol i gyflwyno darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

Ysgolion Uwchradd yng Nghymru



21. Ym mhob ardal ddaearyddol mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth wedi cael ei chynllunio a'i chyflwyno yn draddodiadol yn unigol o fewn ysgolion a sefydliadau addysg bellach, ynghyd â rhai rhaglenni dysgu gwirfoddol a rhai rhaglenni dysgu seiliedig ar waith a, lle y bo'n briodol, ddarpariaeth addysg uwch. Yn genedlaethol ac yn rhanbarthol, mae'r 25 o sefydliadau addysg bellach wedi sefydlu rhai partneriaethau sectoraidd cryf a threfniadau cydweithio eraill sy'n fuddiol i'r naill a'r llall yn ogystal â'u cylch gwaith lleol.

22. Yn olaf mae'r 13 darparwr addysg uwch yng Nghymru yn rhan o rwydwaith i'r DU gyfan, sy'n cynnig darpariaeth lefel uwch, â mynediad byd-eang. Mae'r cylch gwaith eang yn cwmpasu graddau sylfaen, graddau cyntaf a graddau uwch; Rhaglenni mynediad; a darpariaeth hyfforddiant genedlaethol a phwrpasol arall. At hynny mae prifysgolion yn cynnal rhaglenni ymchwil gwerthfawr sy'n hanfodol i ddyfodol Cymru ac maent wedi sefydlu rhai cysylltiadau cydweithio da â phrifysgolion eraill a cholegau addysg bellach.

Addysg Bellach ac Addysg Uwch yng Nghymru



© Hawlfraint y Goron 2008

Cartograffeg : ML/23/08.09/education (3)

Fodd bynnag, mae mwy o le i brifysgolion chwarae rôl bellach mewn rhwydwaith dysgu llawn integredig. Bydd hyn yn cynnwys datblygu mwy o gysylltiadau â phrifysgolion a cholegau; canolbwyntio ar ehangu llwybrau dilyniant galwedigaethol a llwybrau dilyniant yn seiliedig ar sgiliau y mae eu mawr angen; datblygu arbenigeddau; a sefydlu pwyntiau mynediad a phwyntiau gadael clir ar gyfer pob dysgwr dros 18 oed. Bwriedir bwrw ymlaen â'r gwaith o ddiweddaru *Ymgeisio yn Uwch*, strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch, yng nghyd-destun yr agenda hon[7].

Y Ddadl dros Newid

23. Er gwaethaf y gwelliannau i brosesau cyflwyno darparwyr mae cryn dystiolaeth i ddangos bod gormod o ddosbarthiadau chwech bach mewn ysgolion ac, mewn ychydig o ardaloedd, gormod o ysgolion uwchradd. At hynny, mae nifer fawr o ddarparwyr addysg bellach a darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith yng Nghymru a byddai symleiddio'r sector yn helpu i atgyfnerthu gweithgarwch rheoli strategol, gwella effeithlonrwydd ac ateb y galw am ddarpariaeth addysg a hyfforddiant berthnasol o safon yn fwy effeithiol yn awr ac yn y dyfodol[8].

24. Mae'r modd y cyflwynir darpariaeth addysg a hyfforddiant ar hyn o bryd yn aneffeithlon o ran costau cynnal a chadw gormod o adeiladau ysgol; dyblygu darpariaeth 16-19 yn ddiangen rhwng ysgolion a rhwng ysgolion a cholegau; dewis cyfyngedig ar gyfer llawer o ddysgwyr; gormod o ddosbarthiadau ôl-16 bach mewn ysgolion; ac mewn rhai achosion lleoedd gwag yn yr ystod oedran 11-16. Mae hyn yn arwain at arian gwerthfawr a ddyrannwyd ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cael ei gyfeirio tuag at gostau staff ychwanegol a buddsoddi mewn seilwaith pan fyddai'n well ei gyfeirio at y dysgwyr a phrofiad y dysgwr[9]. At hynny, mae Estyn yn nodi bod y nifer fach o fyfyrwyr a geir mewn llawer o ddosbarthiadau chwech ysgolion yn arwain at ryngweithio cyfyngedig rhwng myfyrwyr sy'n lleihau effeithiolrwydd dysgu.

25. Lle mae darparwyr yn cydweithio i leihau aneffeithlonrwydd a gwella effeithiolrwydd darpariaeth, mae cyfleoedd i ddysgwyr a rhyngweithio gan fyfyrwyr yn cynyddu. Mae hyn yn wir, er enghraifft, yng Nghaerffili yn Ne Cymru, lle y mae saith ysgol a choleg lleol yn cynnig cwricwlwm ôl 14-19 cyffredin. Mae hyn yn darparu dros 80 o raglenni dysgu ar gyfer y garfan ôl-14 a llwybrau dilyniant clir; profiadau addysgu a dysgu arbenigol a chyson o safon ar gyfer dysgwr dros 16 oed; a darpariaeth sy'n cynnig gwerth da am arian. Adolygir y trefniant cydweithio i sicrhau gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn ac mae'r awdurdod lleol a'r coleg yn ymrwymedig i ddatblygu'r trefniadau partneriaeth ymhellach dros amser i ystyried anghenion dysgwyr ac anghenion y gymuned leol o ran sgiliau a chyflogaeth.

[7] Ymgeisio yn Uwch, Strategaeth ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru, 2002. Bwriedir diweddaru'r strategaeth hon yng ngoleuni blaenoriaethau a pholisi trawsnewid addysg 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru' i sicrhau bod dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â pherfformiad economaidd a chynhwysiant cymdeithasol.

[8] Rhoddir gwybodaeth ystadegol ac ariannol yn ymwneud â darpariaeth dysgu yn Atodiad A.

[9] Fodd bynnag, cydnabyddir bod rhai ardaloedd gwledig ac ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd ymhell o ddarparwyr cyfrwng Cymraeg eraill yn wynebu problemau penodol. Yma, mae'n rhaid ystyried mater cost-effeithiolrwydd yn nhermau'r manteision cyffredinol i ddysgwyr.

26. Mae darparwyr sydd wedi'u lleoli mewn rhan o ardal Blaenau'r Cymoedd yn datblygu ffyrdd eraill o drawsnewid y modd y cyflwynir addysg a hyfforddiant. Unodd Coleg Addysg Bellach Merthyr Tudful â Phrifysgol Morgannwg yn 2006, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgarwch cyflwyno dysgu ac ymgysylltu'n well â darparwyr dysgu seiliedig ar waith a chyflogwyr. Ym Merthyr Tudful a Blaenau Gwent mae cynlluniau hirsefydlog i gysylltu'r holl ddarpariaeth ôl-16 leol, gan gynnwys mynediad at raglenni dysgu lefel uwch, drwy sefydlu Campysau Dysgu Gydol Oes. Disgwylir i'r achosion busnes ar gyfer y cynigion hyn gael eu cyhoeddi yn fuan. Yn yr un ardal ddaearyddol, mae darparwyr addysg uwch ac addysg bellach yn awyddus i sefydlu Prifysgol i Flaenau'r Cymoedd ac mae Prifysgolion Casnewydd a Morgannwg yn buddsoddi'n helaeth mewn cynllunio'r ateb arloesol hwn i'r lefel isel o gyfranogiad mewn addysg uwch.

27. Ym mis Chwefror 2008 cyhoeddodd Colegau Iâl a Glannau Dyfrdwy eu bod yn bwriadu cynnal astudiaeth ddichonoldeb o'r potensial ar gyfer cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru. Ers hynny mae Coleg Llysfasi wedi dod yn bartner yn y cynllun a bydd yr astudiaeth ddichonoldeb yn ymchwilio i ffyrdd y gall y tri choleg gydweithio i wella ymhellach yr addysg a'r hyfforddiant a gynigir i'w dysgwyr. Disgwylir i hyn arwain at gydweithio mwy ffurfiol wrth gyflwyno addysg a hyfforddiant.

28. Mae gan nifer o ardaloedd awdurdod lleol system rannol drydyddol ar gyfer darpariaeth ôl-16. Yn Wrecsam, mae pedair ysgol yn dal i gynnig darpariaeth ôl-16 (gan gynnwys un ysgol arbennig ac un darparwr Cyfrwng Cymraeg), ac mae Coleg Iâl yn darparu'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ôl-16, gan gyflwyno cymysgedd eang o lwybrau academaidd a galwedigaethol. Cydnabu'r adolygiad diweddar gan Estyn y partneriaethau 14-19 sydd wedi'u ffurfio a'r cydweithio a ddangoswyd gan ddarparwyr dysgu yn Wrecsam.

29. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn falch o weld rhai rhanddeiliaid yn ymateb i ymgyrchoedd polisi cenedlaethol, yng nghyd-destun gweithgarwch cyflwyno lleol. Nid yw eraill wedi gwneud cymaint o gynnydd â'r rhai a nodwyd o ran eu cynlluniau i gydweithio ac ail-lunio'r modd y cyflwynir dysgu, ond maent yn astudio'r sail dystiolaeth ar gyfer newid. Rydym yn annog y darparwyr dysgu hyn i gyflymu eu prosesau cynllunio ac ymrwymo i raglen drawsnewid a fydd yn sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen.

30. Fodd bynnag, erys y ffaith bod rhywfaint o'r cydweithio y mae darparwyr dysgu yn canolbwyntio arno yn seiliedig yn rhy aml ar gynsail hanesyddol neu ar weithgarwch addysgu a hyfforddi ymylol nad yw'n rhoi fawr ddim sylw i alwadau byd busnes a diwydiant ac anghenion dysgwyr. Mae hyn yn dynodi methiant i fynd i'r afael â gwendidau'r trefniadau cyfredol ac ystyried yr effaith y mae hyn yn ei chael ar sgiliau'r boblogaeth leol.

31. Cafodd Estyn, er bod llawer o arweinwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned, yn neilltuo cryn dipyn o'u hamser i waith partneriaeth, maent yn dal i fod yn amharod i ymrwymo i newid strwythurol neu i gydweithio ag unrhyw fentrau a allai fygwth eu hannibyniaeth gorfforaethol, peryglu eu darpariaeth eu hunain neu ildio cyfrifoldeb am gyflwyno cyrsiau i ddarparwyr

eraill[10]. O ganlyniad, mae gormod o arweinwyr a rheolwyr yn dal i gynllunio ar wahân yn hytrach na gweithio mewn partneriaethau strategol go iawn i ddiwallu ystod amrywiol o anghenion dysgwyr.

32. Datgelodd ymchwil Pathfinder Llywodraeth y Cynulliad ei hun[11] aneffeithlonrwydd ac aneffeithiolrwydd llawer o weithgarwch cyflwyno dysgu ôl-16; a dengys tystiolaeth nad yw'r polisi ar Lwybrau Dysgu 14-19 wedi cael yr un sylw ym mhob rhan o Gymru eto.

33. Felly nid yw'n syndod i adolygiad Webb a gyhoeddwyd yn ddiweddar godi pryderon ynghylch pa mor barod yw'r darparwyr dysgu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru o ran gwella sgiliau cymunedau lleol.

34. I grynhoi, yn achos llawer o ddysgwyr yng Nghymru, prin yw'r gwelliannau sydd wedi deillio o drefniadau cydweithio gwirfoddol, ac mae tystiolaeth gryf i argymell y dylid ail-lunio, ailgyflunio a thrawsnewid darpariaeth dysgu ôl-16 yn llwyr i sicrhau bod ganddi'r strwythur a'r gallu priodol i ddarparu sgiliau'r dyfodol[12].

Y Polisi Trawsnewid

35. Ar ôl ystyried y data cyfredol ar gyfer lefelau cyrhaeddiad dysgu yng Nghymru, cymariaethau rhyngwladol, drwy'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) a thystiolaeth a roddwyd i Adolygiad Webb, mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymedig i bolisi o sefydlu Partneriaethau Dysgu daearyddol a sectoraidd. Unwaith y byddant wedi'u creu, dylai'r Partneriaethau Dysgu hyn gynllunio a gweithredu newidiadau a all ategu gwelliannau a amlinellir ym mholisi Llywodraeth y Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys y targedau a osodwyd ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed; y targedau hynny a nodwyd i wella effeithiolrwydd sefydliadau ac ansawdd y ddarpariaeth; y nodau o wella cyrhaeddiad a dilyniant i'r cam nesaf o addysg a hyfforddiant; gwella mynediad i ddarpariaeth Gymraeg; a'r targedau hynny sy'n canolbwyntio ar ofynion sector a gofynion yn seiliedig ar sgiliau. Yn benodol rydym am weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â'r dangosyddion perfformiad allweddol canlynol:

- **gwella sgiliau sylfaenol;**
- **cynyddu cyfradd cyfranogiad pobl ifanc 16-18 oed mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;**

[10] Arweinyddiaeth a rheolaeth strategol yn y sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned, Estyn, Mai 2007

[11] Mae Cynlluniau Braenaru Daearyddol yn adolygiadau strategol o effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadaeth bresennol darpariaeth dysgu ôl-16 (ac eithrio addysg uwch) mewn ardal leol benodol a'r modd y caiff y ddarpariaeth honno ei chyflwyno. O ganlyniad, maent yn gwneud argymhellion ar sut y gellir trefnu'r ddarpariaeth yn well. Mae gwybodaeth ar gael ar wefan: http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/policy_strategy_and_planning/modernising_learning_network/Geographic-Pathfinders/?lang=en

[12] Dylid nodi bod y Cynulliad yn bwriadu ailystyried y ffordd orau o ddarparu pob agwedd ar gyngor a chanllawiau gyrfaoedd o safon yng Nghymru. Byddwn yn adolygu'r model ar gyfer Gyrfa Cymru, gan ystyried sut y mae angen strwythuro'r gwasanaeth, darparu adnoddau ar ei gyfer a'i flaenoriaethu er mwyn iddo gyflawni ei agenda newydd.

- **cynyddu cyfranogiad pobl ifanc 19-24 oed mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth;**
- **cynyddu cyfraddau llwyddo dysgwyr yn gyffredinol, gan adlewyrchu lefelau cwblhau uwch ymhlith dysgwyr yn ogystal â chyflawni nodau cymhwyster;**
- **cynyddu cymwysterau Lefel 2 a 3;**
- **cynyddu cymwysterau Lefel 4; a**
- **chynyddu nifer y bobl sy'n symud ymlaen i ddysgu lefel uwch neu gyflogaeth lefel uwch.**

36. Nodir y meini prawf y byddwn yn eu defnyddio i werthuso cynlluniau i drawsnewid y modd y cyflwynir addysg a hyfforddiant isod. Dylai'r meini prawf gael eu defnyddio gan Bartneriaethau Dysgu i ddatblygu cynlluniau, ac maent yn adlewyrchu'r manteision amlwg y bydd angen i unrhyw drawsnewidiad posibl eu hystyried.

(i)	**Cydweddu strategaethau,** sy'n dangos: • y rhesymeg dros y trawsnewidiad, gan gynnwys yr amserlen ddymunol ar gyfer ei weithredu a'r canlyniad disgwyliedig; • effaith y newid ar ddarpariaeth ac eithrio'r hyn a ddarperir gan y Bartneriaeth Ddysgu; • y manteision a ragwelir ar gyfer dysgwyr; ac • y cyfraniad at adfywio economaidd, cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd.
(ii)	**Gwelliannau ar gyfer dysgwyr**, sy'n cynnwys: • cynlluniau ar gyfer amrywiaeth eang o ddarpariaeth, sy'n diwallu anghenion a nodwyd, gan gynnwys mynediad i raglenni o safon drwy dechnolegau modern; • datblygu cyfleoedd cyflogaeth a chyfleodd dysgu yn arbennig ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET), y rhai sy'n economaidd anweithgar a grwpiau targed sgiliau isel; • sicrhau cyfle cyfartal i ddysgwyr fanteisio ar raglenni addysg a hyfforddiant lle bynnag maent yn byw, gan fynd i'r afael â materion teithio i ddysgu fel y bo'n briodol; a • chysylltiadau â gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol cysylltiedig, megis gofal iechyd, hamdden, a'r celfyddydau.

(iii) **Gwelliannau ar gyfer cyflogwyr a'r economi leol,** sy'n cynnwys:

- ystyried anghenion cyflogwyr a'r economi leol;
- gwella perthnasedd, effeithlonrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth a'i hehangu i ddiwallu anghenion sgiliau sector a nodwyd; a
- datblygu cyfleusterau arbenigol a rennir, lle y bo'n briodol, sydd unwaith eto yn cyflawni blaenoriaethau sector a nodwyd.

(iv) **Cost-effeithiolrwydd**, **cynaliadwyedd hirdymor** a **manteision ariannol,** a ddylai ddangos:

- bod gorgyffwrdd a dyblygu diangen o ran y ddarpariaeth wedi'u lleihau;
- bod synergeddau a gostiwyd wedi'u sicrhau;
- gwell effeithlonrwydd yn nosbarthiadau chwech ysgolion sy'n gweithredu gyda llai na 150 o fyfyrwyr; ac mewn sefydliadau addysg bellach sy'n gweithredu gyda throsiant blynyddol o lai na £15 miliwn;
- buddsoddi mewn darpariaeth sy'n ateb y galw ac a fydd yn darparu amgylchedd dysgu sy'n gwbl addas i'r diben;
- hyfywedd y ddarpariaeth a'r effaith ar ddarparwyr dysgu, nad ydynt yn rhan o'r Bartneriaeth Ddysgu;
- gwelliannau o ran y defnydd a wneir o gyllid rheolaidd;
- y defnydd o lwyfannau dysgu TGCh, i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithgarwch cyflwyno, a sut y mae technoleg yn raddadwy ac yn gydnaws a sut mae'n gallu hyrwyddo cydweithio yn y dyfodol;
- bod sylw wedi'i roi i effaith newidiadau ar y defnydd a wneir o le; a'r
- goblygiadau i iechyd ariannol ysgolion, sefydliadau addysg bellach lleol a darparwyr eraill sy'n cymryd rhan.

(v) **Derbynioldeb ac effaith y cynnig** yng nghyd-destun yr awdurdodau lleol, y darparwyr dysgu yn y gymuned, y sefydliadau addysg bellach, y sefydliadau addysg uwch a'r darparwyr dysgu seiliedig ar waith sy'n aelodau yn ogystal ag APADGOS. Dylai hyn gynnwys:

- tystiolaeth bod rhanddeiliaid allweddol yn cytuno â'r cynnig a gyflwynwyd, a bod sylw priodol wedi'i roi i effaith bosibl y cynnig ar ddarparwyr unigol, gan gynnwys darpariaeth ysgolion a gynhelir ar gyfer pobl ifanc 11-16 oed, darpariaeth dysgu seiliedig ar waith a dysgu yn y gymuned; ac
- asesiad effaith cynhwysol.

(vi) **Darparu dysgu o safon**, a ddylai ddangos:

- gwell cysondeb o ran safonau rhwng darparwyr o fewn sectorau ac ar eu traws;
- gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ddarparu system addysg a hyfforddiant o'r radd flaenaf, cyflawni targedau byd-eang a chanolraddol ar gyfer cyflawniadau lefel 2 a 3;
- adeiladu ar arfer da a chyflawniadau eithriadol a ddangoswyd eisoes o fewn yr ardal neu'r rhanbarth;
- ategu'r gwaith o wella graddau arolygu Estyn ar gyfer darpariaeth unigol a darpariaeth mewn partneriaeth;
- strategaethau, targedau a chynlluniau gweithredu clir i sicrhau bod darpariaeth dysgu yn cyrraedd safon 'dda' o leiaf tra'n anelu at ragoriaeth;
- sicrhau a gwella ansawdd addysgu a phrofiad y dysgwr; a
- gwaith cynllunio strategol a gwaith sicrhau ansawdd mwy effeithiol.

(vii) **Gwella darpariaeth Gymraeg a darpariaeth ddwyieithog**, a ddylai ddangos:

- bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael wedi'i chynyddu a'i hymestyn i gwmpasu pynciau eraill drwy ailgyflunio rhwydweithiau o fewn ardaloedd awdurdod lleol, neu ar draws ffiniau awdurdodau lleol lle y bo'n briodol;
- llwybrau dilyniant ac opsiynau ôl-16/-18 clir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog yn narpariaeth addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dosbarthiadau chwech ysgolion, fel y bo'n briodol;
- cynnydd yn y nifer a'r amrywiaeth o opsiynau a gynigir drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog, gan y sefydliad a'r bartneriaeth, fel y bo'n briodol; a'r
- effaith gadarnhaol a gaiff y cynnig o ran yr amrywiaeth o gyfleoedd cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i ddysgwyr ac ansawdd y cyfleoedd hynny.

(viii) **Dangos gwelliannau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth.** Dylai hyn gynnwys:

- bod sylw wedi'i roi i effaith y model cydweithio arfaethedig o ran cyrraedd grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol;
- bod cyfleoedd gwell ar gael i bob person ifanc ac oedolyn yn enwedig y grwpiau hynny heb gynrychiolaeth ddigonol; a
- trefniadau rheoli a llywodraethu i hyrwyddo a sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth.

(ix)	**Trefniadau Rheoli a Llywodraethu**, a ddylai ddangos: • ymrwymiad y partneriaid i gynaliadwyedd y fenter; • sut y bydd y bartneriaeth gydweithredol yn gweithredu i sicrhau gwelliannau ar gyfer dysgwyr o flwyddyn i flwyddyn; a • bod perfformiad yn cael ei reoli yn effeithiol, gan gynnwys defnyddio cynlluniau hunanasesu, cynlluniau rheoli risg a chynlluniau wrth gefn.
(x)	Dangos **ffynonellau arian** a ragwelir i hwyluso'r cynnig, a ddylai gynnwys: • y defnydd o gyllidebau rheolaidd a chyllidebau cyfalaf; • bod asedau wedi'u gwerthu pan fydd swyddogaethau yn symud i seilwaith dysgu newydd; • cyfraniadau gan awdurdodau lleol, sefydliad(au) addysg bellach, sefydliad(au) addysg uwch a WEFO; • benthyca darbodus a sefydliadol; • y defnydd o ffrydiau ariannu trydydd parti priodol; a • chyflwyniadau posibl i ffrydiau ariannu Llywodraeth y Cynulliad.

37. Dylai cynlluniau ar gyfer trawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant gydymffurfio â Model Pum Achos Trysorlys EM. Bydd hyn yn sicrhau bod buddsoddiadau ar raddfa fawr yn cael eu trin mewn dull strwythuredig sy'n gadarn, yn realistig ac y gellir ei gyflawni.

Y Model Pum Achos

Mae defnydd helaeth wedi'i wneud o'r Model Pum Achos ar draws y sector cyhoeddus ers blynyddoedd lawer a'r model hwn yw'r safon a argymhellir *ar gyfer paratoi achosion busnes. Mae wedi'i strwythuro i sicrhau bod cynigion ar gyfer buddsoddiadau sylweddol yn gadarn, yn realistig, wedi'u cynllunio'n dda ac y gellir eu cyflawni.*

O dan y model hwn, rhennir achosion busnes yn bum agwedd wahanol sy'n gysylltiedig ond ar wahân (sef, yr agweddau strategol, economaidd, ariannol, masnachol a rheoli ar yr achos). Mae pob un o'r pum agwedd hyn yn bwysig; fodd bynnag, bydd eu maint yn amrywio o gynnig i gynnig gan ddibynnu ar ei natur a pha mor gymhleth ydyw. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan:

http://www.hm-treasury.gov.uk/economic_data_and_tools/greenbook/data_greenbook_business.cfm

Modelau o Bartneriaethau Dysgu

38. Darperir y modelau o Bartneriaethau Dysgu fel canllaw i helpu awdurdodau lleol a darparwyr addysg a hyfforddiant i nodi'r dull mwyaf priodol o gydweithio yn seiliedig ar y blaenoriaethau ar gyfer newid.

39. Er y bydd llawer o Bartneriaethau Dysgu yn gweithio yn ôl agenda newydd, rydym yn cydnabod bod rhai rhanddeiliaid eisoes wrthi'n bwrw ymlaen â newidiadau i rwydweithiau darparwyr. Mae rhai wrthi'n dadansoddi perfformiad dysgwyr; mae rhai eraill yn arfarnu opsiynau ar gyfer cydweithio'n agos fel rhwydwaith a newid; mae ambell un wedi gwneud cryn dipyn o waith ac maent yn cynllunio i weithredu eu rhaglenni trawsnewid. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gynorthwyo'r fath bartneriaethau i ddatblygu a gweithredu rhaglenni trawsnewid.

Partneriaeth Ddysgu Model 1: Ystyried Darpariaeth 16-19

40. Bydd Awdurdodau Lleol yn arwain y gwaith o ddatblygu darpariaeth ysgolion ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, mewn partneriaeth â'r sector addysg bellach, i sicrhau gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau. Byddant hefyd yn datblygu'r protocoliau i sefydlu system drydyddol ar gyfer cyflwyno dysgu ôl-16, lle y bo'n briodol.

41. Dylid ystyried y newidiadau canlynol yn fanwl, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, wrth sicrhau gwelliannau sylweddol ar gyfer dysgwyr ôl-16:

- cydweithio agos ond anffurfiol rhwng ysgolion a darparwyr dysgu eraill, megis sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, i gyflawni gofynion y Mesur Dysgu a Sgiliau o ran cwricwlwm lleol;
- clystyrau o ysgolion yn cydweithio o dan drefniadau cydlywodraethu, gan ddefnyddio'r Rheoliadau Ysgolion[13] a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2008 i ddarparu ar gyfer cydweithio gwirfoddol rhwng ysgolion cyfan;
- cyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach ac ysgolion yn sefydlu prosesau cydweithio gwirfoddol, o dan drefniadau cydlywodraethu, gan ddefnyddio rheoliadau[14] y disgwylir iddynt ddod i rym ym mis Rhagfyr 2008; a
- chau un neu ragor o ddosbarthiadau chwech ysgolion a throsglwyddo'r myfyrwyr i ddarpariaeth addysg amgen addas, a all fod yn chweched dosbarth mewn ysgol arall; neu drosglwyddo'r myfyrwyr yn uniongyrchol i sefydliad addysg bellach gyffredinol neu sefydliad addysg bellach i greu coleg trydyddol.

42. Dylid nodi y bydd unrhyw newidiadau yn nhrefniadaeth ysgolion yn ddarostyngedig i'r gofynion statudol sy'n gymwys i'r sector hwn.

43. Wrth baratoi cynlluniau i drawsnewid y modd y cyflwynir addysg a hyfforddiant ôl-16, efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried modelau gweithredol o arfer da. Er enghraifft, mae gan Gyngor Dinas Wolverhampton bartneriaeth rhwng darparwyr a fu mewn bodolaeth ers cryn amser, sy'n cynyddu'r dewis i ddysgwyr dros 14 oed ac yn gwella cyrhaeddiad dysgwyr dros 14 oed a dysgwyr dros 16 oed yn sylweddol.

44. Mae rhannau eraill o'r DU hefyd yn gwneud cynnydd da o ran datblygu dulliau pwrpasol o gyflwyno dysgu i wella deilliannau dysgwyr, megis Coleg Cornwall, Coleg Truro a Choleg Blackburn.

[13] Rheoliadau Cydweithio rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008
[14] Rheoliadau Cydweithio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008

45. Yn y cyd-destun hwn, efallai y bydd awdurdodau lleol am ystyried model consortiwm Webb, lle y mae màs critigol y dysgwyr a'r darparwyr yn ddigon mawr.

Partneriaeth Ddysgu Model 2: Dysgu Seiliedig ar Waith – Datblygu Darpariaeth ar gyfer y Dyfodol

46. Caiff y gwaith o ddatblygu darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar gyfer y dyfodol ei arwain gan Lywodraeth y Cynulliad, sy'n cydnabod bod angen parhau i wella ansawdd darpariaeth dysgu seiliedig ar waith ledled Cymru. Er bod dysgu seiliedig ar waith wedi gwella cryn dipyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd gan chwarter y darparwyr a arolygwyd gan Estyn yn 2006-07 safonau anfoddhaol yn gyffredinol (Gradd 4).

47. Rydym yn bwriadu cynyddu cynyddu'r ddarpariaeth dysgu ymarferol a dysgu seiliedig ar waith sydd ar gael, drwy gynnwys sefydliadau addysg bellach, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr yn yr ymarfer tendro nesaf ar gyfer dysgu seiliedig ar waith (2010-13), ond ein nod yw lleihau nifer y contractau a roddir, i sicrhau bod y ddarpariaeth o ansawdd ac o fath sydd eu hangen i gynorthwyo dysgwyr i ddysgu'n llwyddiannus. Bydd hyn yn ein galluogi i feithrin rhagoriaeth mewn dysgu seiliedig ar waith yn unol â'r cynnydd sy'n cael ei wneud mewn lleoliadau addysg a hyfforddiant eraill.

Partneriaeth Ddysgu Model 3: Modelau ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach a Sefydliadau Addysg Uwch

48. Mae sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn gyrff annibynnol sy'n cael symiau sylweddol o arian cyhoeddus. Mae Llywodraeth y Cynulliad am i sefydliadau yn y ddau sector ystyried eu cenadaethau ar y cyd ac ar wahân a'r cyfraniad strategol y maent yn disgwyl ei wneud i ddarparu'r addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen yn awr ac ar gyfer y dyfodol.

49. O ganlyniad, efallai y bydd sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch am ystyried y canlynol:

- Trefniadau cydweithio anffurfiol rhwng colegau, rhwng prifysgolion, a rhwng colegau a phrifysgolion, i roi i ddysgwyr ôl-16 yr hawl i fanteisio ar ystod o opsiynau dysgu y tu hwnt i'r ddarpariaeth a ddarperir gan sefydliad unigol. Câi'r math o ddarpariaeth alwedigaethol a'i hansawdd eu nodi; byddai colegau yn ymgysylltu â chyflogwyr ac yn darparu dysgu mewn amgylchedd gwaith. Dylai cysylltiadau addysg bellach/addysg bellach ac addysg bellach/addysg uwch geisio lliniaru problemau yn gysylltiedig â cholegau a grwpiau dysgwyr bach, sefydlu prosesau ar gyfer cyflwyno arbenigedd mewn sgiliau a chanolfannau rhagoriaeth mewn sgiliau lle y bo'n briodol; a chefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau dilyniant arbenigol sectoraidd ymhellach.
- Partneriaethau Dysgu Ffurfiol sefydliadau addysg bellach, gan ddefnyddio'r rheoliadau cydweithio, i ddarparu ar gyfer ehangu'r ystod o raglenni a'r arbedion maint cysylltiedig, yr ehangu cysylltiedig o ran llwybrau dilyniant, a chysylltiadau cryfach sydd wedi'u cydgysylltu'n well â diwydiant.

- Uno sefydliadau addysg bellach[15] i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth addysg bellach o fewn ardal ddaearyddol yn sylweddol a hyrwyddo mynediad a chyfleoedd ehangach ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-16, gan gynnwys hyfforddiant seiliedig ar waith a darpariaeth gymunedol.
- Uno sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch[16] a ddylai fod wedi'i seilio'n glir ar wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd darpariaeth addysg bellach i wella'r manteision i ddysgwyr a datblygiad amrywiaeth o feysydd rhaglenni traddodiadol a newydd; sefydlu canolfannau rhagoriaeth ac ati. Fodd bynnag, dim ond os na fyddent yn amharu ar genhadaeth graidd y naill bartner a'r llall y dylid ystyried uno sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch fel hyn.

Partneriaeth Ddysgu Model 4: Cyflwyno Darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned

50. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn arwain y gwaith o wella'r modd y cyflwynir darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, ar y cyd â darparwyr perthnasol. Yn achos y maes cyflwyno hwn rydym o'r farn bod rhywbeth i'w ddweud o blaid model consortiwm Webb. Yr opsiwn rydym yn ei gynnig yw creu Partneriaethau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ledled Cymru ar gyfer cyflwyno darpariaeth a ariennir gan Lywodraeth y Cynulliad a byddwn yn ymgynghori ynghylch yr opsiwn hwn ym mis Medi 2008. Bydd y Partneriaethau yn cyflwyno darpariaeth i oedolion dros 19 oed.

51. Y cynnig yw y bydd pob Partneriaeth Ddysgu yn gyfrifol am gynllunio ac ariannu darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned mewn ardal ddaearyddol benodol. Rhagwelir y bydd y Partneriaethau Dysgu yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol a sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector cymunedol. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfle i ymestyn gwaith partneriaeth wrth gyflwyno darpariaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned. Byddwn yn edrych ar opsiynau i integreiddio'r Partneriaethau Dysgu hyn â phrosesau cynllunio a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes, er enghraifft Partneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach yn y sector addysg uwch, er mwyn osgoi dyblygu ymdrech lle y bo'n bosibl.

Cynllunio Trawsnewid

52. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad o reidrwydd am gyfyngu datblygiadau trawsnewid i'r modelau a amlinellir yn y ddogfen hon ac rydym yn croesawu trafodaethau pellach â Phartneriaethau Dysgu sydd am ddatblygu trefniadau cydweithio eraill sy'n bosibl o fewn y rheoliadau cyfredol, ac sy'n briodol i anghenion dysgwyr.

[15] Dylai cynigion ystyried pwerau statudol perthnasol sy'n galluogi corfforaethau Addysg Bellach i integreiddio.
[16] Dylai cynigion ystyried pwerau statudol perthnasol sy'n galluogi corfforaethau addysg bellach i integreiddio â chorfforaethau addysg uwch.

53. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i Bartneriaethau Dysgu ganolbwyntio ar un neu ragor o feysydd i'w datblygu, gan ddibynnu ar ba welliannau sydd eu hangen fwyaf ar gyfer dysgwyr. Yn ymarferol bydd hyn yn golygu ystyried yr ystod o ddewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr unigol; cyfranogiad isel mewn dysgu; darpariaeth o ansawdd gwael; aneffeithlonrwydd sy'n lleihau'r arian sy'n llifo'n uniongyrchol i'r dysgwr; yr amgylchedd dysgu; a'r galw am newid o du dysgwyr a chyflogwyr.

54. Wrth ymateb i'r heriau a osodwyd, i wella sgiliau pob person ifanc ac oedolyn erbyn 2015, dylai'r Partneriaethau Dysgu ystyried tystiolaeth sydd ar gael drwy ddata meincnodi; deilliannau adolygiadau cenedlaethol a lleol annibynnol; ac arfarniadau cadarn o opsiynau i gytuno ar flaenoriaethau, a fydd yn eu tro yn llywio gwaith cynllunio.

55. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl, fan leiaf, i gynigion cydweithio ystyried yr aneffeithlonrwydd, yr aneffeithiolrwydd a'r anhyblygrwydd cymharol a geir ym mhrosesau cyflwyno darparwyr ôl-16. Er enghraifft, rydym yn credu bod hyn yn fwy tebygol o godi pan fydd dosbarthiadau chwech ysgolion yn gweithredu gyda llai na 150[17] o fyfyrwyr, ond rydym yn cydnabod bod yn rhaid ystyried materion gwledig a materion cyfrwng Cymraeg. Mae'n digwydd yn yr un modd pan fydd sefydliadau addysg bellach yn gweithredu gyda throsiant blynyddol o lai na £15 miliwn[18].

56. At hynny, dylai pob cynllun ddangos sut y mae Partneriaethau Dysgu yn bwriadu hyrwyddo ymgysylltu'n fwy â chyflogwyr, fel bod darpariaeth yn ymateb i anghenion cyflogwyr yn lleol ac yn genedlaethol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr dros 19 oed.

57. Yn olaf, dylai unrhyw gynllun a lunnir gan Bartneriaeth Ddysgu roi sylw manwl i'r effaith y gallai ei chael ar ddarparwyr lleol eraill, sectorau eraill a chyfnodau eraill o addysg ysgol. Dylid ymchwilio'n fanwl i'r modd y caiff risgiau yn gysylltiedig ag effeithiau negyddol posibl eu rheoli. Yn achos rhai rhanddeiliaid efallai y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Bartneriaeth Ddysgu gydamseru'r gwaith o gynllunio a gweithredu blaenoriaethau wedi'u halinio. Er enghraifft, efallai y bydd Partneriaethau Dysgu am roi sylw penodol i gydamseru cynlluniau ailgyflunio ar gyfer cyflwyno darpariaeth ôl-16 â'r gwaith ehangach o ad-drefnu ysgolion uwchradd mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol.

58. Yn achos awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau deddfwriaethol a phwerau ariannu penodol[19] i lywio newid. Fodd bynnag, ein polisi, yn y lle cyntaf, yw gweithio'n gadarnhaol gyda'r Partneriaethau Dysgu hynny sydd ag uchelgais a bwriad clir i drawsnewid, gyda chymorth sail dystiolaeth gryf. Dim ond pan fo tystiolaeth gadarn ar gyfer newid trawsnewidiol ond lle nad yw cynlluniau i sicrhau'r newid angenrheidiol yn cael eu

[17] "Trading Places A Management Handbook on the Supply and Allocation of School Places", Y Comisiwn Archwilio, 1997

[18] Adolygiad Webb

[19] Mae enghreifftiau o bwerau yn cynnwys, amodau ariannu Llywodraeth y Cynulliad o ran darparwyr dysgu, sy'n cwmpasu refeniw a buddsoddi cyfalaf; cyfrifoldebau statudol a'r camau gweithredu y byddem yn eu cymryd i sicrhau'r rhain, fel y nodir yn ein cylch gwaith gydag awdurdodau lleol; a thelerau cytundebau seiliedig ar waith ac ariannu'r fath gytundebau.

datblygu y byddwn yn mabwysiadu dull gweithredu mwy ymyraethol, ar ran dysgwyr dros 16 oed.

59. Gan ystyried anghenion dysgwyr rydym yn ymrwymedig i weithredu'r newidiadau angenrheidiol ym mhrosesau cyflwyno darparwyr cyn gynted ag y bo modd. Yn wir mae swyddogion Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn gweithio gyda rhai rhanddeiliaid sy'n datblygu cynlluniau ar gyfer newid prosesau cyflwyno yn sylweddol; ac rydym yn rhagweld y bydd y gwaith o weithredu nifer o raglenni trawsnewid mawr yn dechrau yn 2009.

60. Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw ddysgwr yng Nghymru o dan anfantais, rydym yn disgwyl y bydd tua chwe deg y cant o'r holl gynigion eraill wedi'u cytuno erbyn mis Gorffennaf 2009 ac y byddant yn cael eu gweithredu erbyn mis Medi 2010. Mewn nifer fach o achosion lle y rhagwelir newid trawsnewidiol sylweddol o ran protocoliau statudol a buddsoddiadau cyfalaf mewn seilwaith byddwn yn cytuno ar amserlenni gweithredu addas gyda rhanddeiliaid.

61. Dylai'r holl gynigion sy'n weddill fod wedi'u cytuno, mewn egwyddor, erbyn mis Ionawr 2010 a dylai'r gwaith o'u gweithredu fod yn mynd rhagddo erbyn mis Medi 2011, er gwaethaf unrhyw ofynion amser ychwanegol ar gyfer y cynlluniau hynny lle mae angen gweithgarwch statudol neu ffynonellau arian penodol er mwyn eu datblygu.

62. Rydym yn ymwybodol nad yw'r gwaith o drawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant o reidrwydd yn niwtral o ran cost. Pan fydd darparwyr yn cyflwyno cynigion ar gyfer Partneriaethau Dysgu sy'n dangos newid sylweddol yn seiliedig ar dystiolaeth, i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn y dyfodol, byddwn yn gweithio gyda hwy i nodi ffynonellau arian posibl i sicrhau y caiff y cynigion hynny eu gweithredu'n llwyddiannus. Bydd hyn yn golygu cytuno ar faint o arian a fydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad i ymchwilio'n drwyadl i drefniadau parhaol cymhleth megis uno sefydliadau; a buddsoddiadau cyfalaf ar gyfer y cynlluniau hynny sydd wedi'u seilio ar brosiectau adeiladu newydd sy'n trawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant.

63. Yn ystod y broses o drawsnewid o'n gweithdrefnau Buddsoddi Cyfalaf Strategol presennol i'n rhaglen drawsnewid lawn, bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn nodi unrhyw gynigion sy'n dod i law.

64. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn sylweddoli bod yr heriau rydym i gyd yn eu hwynebu o ran sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl i'n dysgwyr yn rhai sylweddol. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb ein hunain dros lywio'r gwaith o drawsnewid darpariaeth addysg a hyfforddiant yn llwyddiannus ac rydym yn bwriadu sefydlu trefniadau priodol i gynorthwyo rhanddeiliaid i ddatblygu cynigion a chynlluniau, a fydd yn esgor ar welliannau sylweddol i ddysgwyr.

Y Camau Nesaf

65. Yn ystod y misoedd i ddod, bydd swyddogion Llywodraeth y Cynulliad yn cysylltu â phob awdurdod lleol, pob sefydliad addysg bellach a phob sefydliad addysg uwch, i drafod y ffyrdd y dylid gweithredu'r polisi a chynorthwyo rhanddeiliaid i gyflwyno cynigion priodol ar gyfer trawsnewid darpariaeth dysgu ôl-16. Yn achos y rhanddeiliaid hynny sydd â chynlluniau trawsnewid datblygedig, bydd swyddogion yn trafod sut y mae'r rhain yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth y Cynulliad a sut y gellid eu gweithredu.

66. Wedyn, os bydd fforymau perthnasol i drafod cynigion eisoes yn bodoli, er enghraifft rhwydweithiau ardal leol 14-19, yna gellid defnyddio'r rhain i ddechrau'r drafodaeth ynghylch astudio'r dystiolaeth sy'n bodoli i wella prosesau cyflwyno darparwyr lleol. Neu dylid sefydlu cysylltiadau newydd rhwng rhanddeiliaid.

67. Er mwyn cynorthwyo Partneriaethau Dysgu sy'n datblygu a chynnwys y rhwydwaith rhanddeiliaid ehangach, rydym yn bwriadu cynnal nifer o seminarau i archwilio'r elfennau sy'n sail i fentrau cydweithio llwyddiannus. At hynny byddwn yn darparu hyfforddiant ar sut i ddatblygu Model Pum Achos Trysorlys EM. Mabwysiadwyd y model hwn gan Lywodraeth y Cynulliad fel yr offeryn rheoli i gefnogi unrhyw gynigion i'r Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Felly bydd angen i Bartneriaethau Dysgu fodloni gofynion y Model Pum Achos i gael cymeradwyaeth Llywodraeth y Cynulliad i roi ar waith unrhyw gamau gweithredu a bod yn gymwys i fanteisio ar arian sydd ar gael.

68. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i ddarparwyr dysgu gymryd y camau sydd eu hangen i ffurfio Partneriaethau Dysgu daearyddol a sectoraidd erbyn dechrau mis Tachwedd 2008; cynnal adolygiad strategol i ddadansoddi'r ddarpariaeth dysgu bresennol a'r modd y'i cyflwynir; penderfynu ar y newidiadau sydd eu hangen i wella'r ddarpariaeth sydd ar gael yn sylweddol; a chytuno ar y math o ddarpariaeth a gynigir yn y dyfodol a'r modd y caiff ei chyflwyno. Pan fydd cynigion sectoraidd yn cael eu hystyried, dylid cynnwys y cyngor sgiliau sector priodol mewn trafodaethau cyn cytuno ar gyfeiriad a ffurf y newid.

69. Wedyn dylai rhanddeiliaid gofnodi'r cynnig y cytunwyd arno ar ffurf Rhaglen Amlinellol Strategol i'w chyflwyno i APADGOS, erbyn **15 Ionawr 2009**. Dylid cwblhau'r Rhaglen Amlinellol Strategol, a ddangosir yn **Atodiad B**, i ddangos sut y bydd y cynnig yn ategu'r gwaith o gyflawni'r Polisi Trawsnewid. Dylai grynhoi'r hyn a awgrymwyd, a nodi'n gryno y sail resymegol a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ei gyflawni. Dylai rhanddeiliaid sicrhau bod y Tîm Ardal priodol o fewn APADGOS yn cymryd rhan yn ystod cam cynllunio'r Rhaglen Amlinellol Strategol ac mewn llawer o achosion bydd y swyddogion hyn eisoes wedi bod yn ymwneud â thrafodaethau a chynlluniau ar gyfer newid rhwydweithiau ers tro.

70. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu pob Rhaglen Amlinellol Strategol ac yn ystyried pa mor briodol fyddai gofyn am i'r cynnig gael ei ddatblygu ymhellach i lunio Achos Amlinellol Strategol, a fydd yn nodi'r ddadl dros newid ac, os yw'n briodol, yr angen i fuddsoddi. Dylid cyflwyno'r rhain erbyn diwedd mis Mehefin 2009 neu, mewn achosion eithriadol erbyn diwedd mis Medi 2009.

71. Ar ôl cael yr Achos Amlinellol Strategol, byddwn yn asesu'r dystiolaeth a roddwyd a, lle y bo'n briodol, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gwblhau camau pellach yr achos busnes a chytuno wedyn ar strategaeth weithredu.

72. Bydd swyddogion APADGOS ar gael i gynorthwyo rhanddeiliaid i nodi sail resymegol dros newid; a chynllunio a gweithredu'r cynlluniau hynny a fydd yn sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr; gwella cyfiawnder cymdeithasol a chynyddu cyflogadwyedd.

73. Yn achos cynigion sydd eisoes yn ddatblygedig, gan gynnwys y Cynlluniau Braenaru Peilot, ac y cytunwyd arnynt mewn egwyddor gan Lywodraeth y Cynulliad, rydym yn gwahodd rhanddeiliaid i gyflwyno Achos Amlinellol Strategol, erbyn mis 15 Ionawr 2009.

Cynnig	**Cyflwyniad**	**Dyddiad**
Ar gyfer cynigion yn y camau datblygu cynnar	Rhaglen Amlinellol Strategol	15 Ionawr 2009
Ar gyfer cynigion sydd eisoes yn ddatblygedig ac y cytunwyd arnynt mewn egwyddor gan Lywodraeth y Cynulliad	Achos Amlinellol Strategol	15 Ionawr 2009
Ar gyfer cynigion a gymeradwywyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn ychwanegol at gyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol ar 15 Rhagfyr 2008	Achos Amlinellol Strategol	30 Mehefin 2009 **neu** 30 Medi 2009

Atodiad A

GWYBODAETH YSTADEGOL AC ARIANNOL

1. Ysgolion Uwchradd a Gynhelir

Nifer y Disgyblion, Athrawon, Cyflawniadau	**Cyfanswm**
2007 Nifer y Disgyblion ym mhob Ysol Uwchradd a Gynhelir yng Nghymru (heb gynnwys ysgolion arbennig)	210,353
2006/07 Athrawon cyflogedig cymwysedig a heb gymhwyso (FTE)	13,430
2006/07 Cyfanswm y staff cymorth (FTE)	5,468
2006/07 Canran y disgyblion 15 oed a enillodd radd A*-C mewn pump neu ragor o arholiadau TGAU neu gymhwyster cyfatebol	54.2%
2006/07 Canran y disgyblion 17 oed a enillodd radd A-C mewn 2 neu ragor o arholiadau lefel U/UG/TAAU/TAUUG neu GNVQ uwch	67.5%
	Gwariant
2006/07 Gwariant alldro ysgolion uwchradd 2006-07 (gan gynnwys arian a gâi ei ddal yn ganolog gan yr AALlau ac a wariwyd ar ran yr ysgolion)	£958,920,047
2006/07 Dyraniad Cyllideb ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth	£100,562,156

Ffynonellau:

[005452] Ystadegau Ysgolion Uwchradd Cymru - Pob disgybl ar y Gofrestr
Ystadegau Ysgolion Uwchradd Cymru - Athrawon cyflogedig, cymwysedig a heb gymhwyso

[001897] Ystadegau Cymru Cofrestriadau a chanlyniadau arholiadau disgyblion 15 oed

[001892] Ystadegau Cymru Cyraeddiadau disgyblion 17 oed a gofrestrodd ar gyfer dau neu ragor o arholiadau lefel A neu gymhwyster cyfatebol

Data gwariant: Ffurflenni RO1

System Gynllunio ac Ariannu Genedlaethol (NPFS)

2. Sefydliadau Addysg Bellach

Nifer y Cofrestriadau a Staff, heb gynnwys Dysgu yn y Gymuned AALlau, Cyflawniad	**Cyfanswm**
2006/07 (drwy'r flwyddyn) Cofrestriadau ar raglenni dysgu AB rhan amser	218,040
2006/07 (drwy'r flwyddyn) Cofrestriadau ar raglenni dysgu AB llawn amser	42,820
2005/06 Nifer y staff addysgu a dysgu (FTE)	4,505
2005/06 Nifer y staff addysgu a dysgu cymorth a staff cymorth eraill (FTE)	4,645
2006/07 Gweithgarwch dysgu a gwblhawyd fel % (heb gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith)	87%
2006/07 Cyrhaeddiad mewn gweithgarwch dysgu fel % (heb gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith)	70%
2006/07 Cyfradd lwyddo gweithgarwch dysgu fel % (heb gynnwys darpariaeth dysgu seiliedig ar waith)	60%
	Gwariant
2006/07 Gwariant ar AB	£ 403,872,000

Noder: Ni chynhwyswyd darpariaeth AB Coleg Merthyr Tudful yn nata dysgwyr a gwariant 2006/07 (fe'i cynhwyswyd yn nata sefydliadau AU) ond fe'i cynhwyswyd yn nata staff 2005/06

Ffynonellau:
SDR 68/2008: Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru, 2006/07
SDR 138/2008: Staff mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru 2006/07
Sefyllfa ariannol y sector addysg bellach 2006/07
SDR 106/2008: Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith: 2006/07

Cyrhaeddiad yn y Sector AB

Ar hyn o bryd, nid yw data cyrhaeddiad cyfatebol ar gyfer y sector Addysg Bellach ar gael ac felly ni ellir ei gynnwys yn yr atodiad hwn. Fodd bynnag, dylid nodi bod mesurau cyrhaeddiad ar gyfer y sector AB yn cael eu datblygu fel rhan o brosiect ehangach sy'n cael ei gynnal gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'u cyhoeddir ar 17 Gorffennaf 2008.

3. Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau)

Cofrestriadau, Staff, Cyflawniadau yn y Sector AU	**Cyfanswm**
2006/07 Cofrestriadau ym mhob SAU yng Nghymru (a'r Brifysgol Agored yng Nghymru)	150,710
2006/07 Nifer y Staff Academaidd mewn SAUau yng Nghymru	8,320
2006/07 Nifer y Staff Anacademaidd mewn SAUau yng Nghymru	9,750
2006/07 Cymwysterau AU a enillwyd mewn SAUau yng Nghymru (a'r Brifysgol Agored)	35,085
	Gwariant
2006/07 Gwariant SAUau	£978,416,000

Ffynhonnell: StatsCymru
[002381] Cofrestriadau ar gyfer Addysg Ôl-raddedig, Addysg Israddedig ac Addysg Bellach
[002971 & 002972] Staff mewn Sefydliadau Addysg Uwch (gan gynnwys staff llawn amser a rhan amser)
[005237] Cymwysterau Israddedig ac Ôl-raddedig a enillwyd mewn SAUau yng Nghymru
[002414] Cyfanswm gwariant SAUau yng Nghymru

4. Darpariaeth Dysgu Seiliedig ar Waith

Nifer y Cofrestriadau ar Raglenni Dysgu, Cyflawniad	**Cyfanswm**
2006/07 Cofrestriadau ar Raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith mewn Sefydliad AB	14,625
2006/07 Cofrestriadau ar Raglenni Seiliedig ar Waith gyda darparwyr hyfforddiant eraill	58,545
2006/07 Cyfradd lwyddo fframwaith mewn Prentisiaeth Fodern (PM)	43%
2006/07 Cyfradd lwyddo fframwaith mewn Prentisiaeth Fodern Sylfaenol (PFS)	53%

Ffynhonnell:
SDR 68/2008: Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru, 2006/07
SDR 106/2008: Cymaryddion Cenedlaethol ar gyfer Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith: 2006/07

Cyrhaeddiad mewn Dysgu Seiliedig ar Waith

Mae dangosyddion cyrhaeddiad ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith wrthi'n cael eu hadolygu fel rhan o'r prosiect ehangach a nodwyd uchod ac fe'u cyhoeddir ar 17 Gorffennaf 2008.

Fodd bynnag, nododd mesurau interim ar gyfer 2005/06 mai 31 a 44 fesul 100 o bobl a oedd yn gadael oedd y cyrhaeddiad fframwaith ar gyfer rhaglenni PF a PFS yn y drefn honno.

Amrywiai deilliannau fframwaith gryn dipyn rhwng meysydd dysgu, a chafwyd y lefelau cyrhaeddiad uchaf mewn PF Cludiant a PFS Gwallt a Harddwch, a'r lefelau cyrhaeddiad isaf mewn PF Rheoli a Phroffesiynol a PF a PFS Gofal Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus.

5. Darpariaeth Dysgu Cymunedol AALlau

Nifer y Cofrestriadau ar Raglenni Dysgu	Cyfanswm
2006/07 Cofrestriadau llawn amser mewn SABau	15
2006/07 Cofrestriadau rhan amser mewn SABau	38,870
2006/07 Cofrestriadau llawn amser mewn AALlau	0
2006/07 Cofrestriadau rhan amser mewn AALlau	28,795

Ffynhonnell:
SDR 68/2008: Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Cymunedol yng Nghymru, 2006/07

Atodiad B

Trawsnewid Darpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Y Rhaglen Amlinellol Strategol

Canllawiau

1. Diben y cam hwn yw nodi sut mae'r cynnig yn cyd-fynd yn strategol â'r Polisi Trawsnewid cyffredin; â pholisïau cenedlaethol cydnaws eraill; ac â strategaethau lleol cyfredol ar gyfer sicrhau gwelliannau i'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant a gwelliannau ar gyfer dysgwyr, ôl-16, neu ôl-11, os yw'n briodol.

2. Mae'r broses o ddatblygu'r Rhaglen Amlinellol Strategol yn cynnwys adolygiad strategol o'r ddarpariaeth bresennol er mwyn cytuno ar y cyd-destun ar gyfer newid. Dylai'r adolygiad ddechrau drwy ofyn cwestiynau am effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ymatebolrwydd y ddarpariaeth dysgu, ac ystyried ei chysoni â Chynlluniau Gofodol a galwadau'r farchnad lafur. Ar ddiwedd yr adolygiad dylid cytuno ar yr elfennau o ddarpariaeth a gweithgarwch cyflwyno'r ddarpariaeth y mae angen eu newid.

3. Dylai'r adolygiad gael ei ddilyn gan gam cynllunio amlinellol i gytuno ar y nodau, y deilliannau a'r allbynnau trawsnewid ar gyfer ardaloedd daearyddol a sectorau. Dylai hefyd gynnig strategaeth i gyflawni'r allbynnau a'r deilliannau sydd eu hangen; nodi amserlenni priodol i weithredu newidiadau; ac, yn achos cynigion a fydd yn gofyn am ddatblygiadau adeiladu newydd, ffynonellau arian posibl.

Cynigwyr:

Ardal Ddaearyddol neu Sector:

Rhanddeiliaid a Darparwyr sy'n Cymryd Rhan:

Yr Adolygiad Strategol Dylai nodi sail resymegol dros yr elfennau o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yr ymdrinnir â hwy yn y cynnig hwn a'r nodau, y deilliannau a'r allbynnau a geisir.

a) **Sail resymegol** dros y cynnig, a ddylai grynhoi'r sail dystiolaeth ar gyfer cyfeiriad strategol y newid sy'n cael ei gynnig.

b) **Yr effaith** ar y galw o du'r farchnad lafur leol.

c) **Dylai cynigion nodi'n glir allbynnau a chanlyniadau dysgwyr** a fydd yn codi o'r model trawsnewid arfaethedig. Dylai hyn gynnwys crynodeb o effaith ddisgwyliedig y newidiadau arfaethedig ar gyfraddau cyfranogi; ansawdd prosesau cyflwyno dysgu; a chyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr.

Y Strategaeth Drawsnewid Ddaearyddol/Sectoraidd, sy'n nodi'r camau y mae'r Bartneriaeth Ddysgu am eu cymryd i gyflawni'r hyn y cytunwyd arno

Amserlen ddisgwyliedig ar gyfer pob cam cyflwyno ac i gwblhau'r rhaglen drawsnewid

Ffynonellau arian arfaethedig